**CYMDEITHAS TAI WALES & WEST**

**ADRODDIAD I'R BWRDD – 10 EBRILL 2025**

**COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL**

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 1.1 Mae gan Grŵp Tai Wales & West Gynllun yr Iaith Gymraeg (CIG) a gymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg (CyG) ym mis Chwefror 2023. Paratowyd y Cynllun hwn dan Adran 21 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sy’n nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus sy’n darparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru baratoi Cynllun sy’n nodi’r mesurau y bydd yn eu cymryd i drin y Gymraeg a’r Saesneg ar sail gyfartal. Nod y Cynllun yw cyflawni ein gofynion cyfreithiol a hefyd, sicrhau cydraddoldeb o ran ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg a Saesneg – mae hyn yn golygu gosod yr un disgwyliadau llym o’n gwasanaethau yn y ddwy iaith a dangos mewn ffordd glir sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol yng Nghymru.

1.2 Bob blwyddyn, rhaid i’r Bwrdd adolygu a chymeradwyo cynllun gweithredu blynyddol CyG (Atodiad 1), sy’n cynnwys naw maes gyda chyfres o dasgau cysylltiedig. Mae’r adroddiad hwn yn ymwneud â’r cyfnod rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025. Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl weithgareddau ar draws y Grŵp.

1.3 Y farn a nodir yn yr adroddiad hwn yw bod y Gymdeithas yn parhau i gynnal ei hymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg trwy ddarparu gwasanaethau a chyfathrebu dwyieithog i breswylwyr. Mae’r Gymdeithas yn annog ac yn hyrwyddo defnydd o’r Gymraeg mewn ffordd weithredol o fewn y Gymdeithas hefyd.

## 2.0 Sgiliau Cymraeg

2.1 Ar hyn o bryd, mae’r Gymdeithas yn cynnwys 233 o staff sy’n siarad Cymraeg, ac mae’r Gymraeg yn famiaith i 76 o’r rhain. Yn ogystal, mae gan sawl aelod o’r Bwrdd sgiliau Cymraeg amrywiol.

2.2 Cesglir gwybodaeth am lefelau rhuglder cyflogeion newydd fel rhan o’r broses ymsefydlu ac mae staff presennol wedi cwblhau hunanasesiad o’u sgiliau Cymraeg. Cofnodwyd y pedwar categori – sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu – ar wahân ar system AD y Gymdeithas, sef Cascade, a gall staff ddiweddaru gwybodaeth am eu lefelau rhuglder wrth iddynt newid. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhellion canllaw cyngor Arfer Da wrth Recriwtio CyG ac ymrwymiad y Gymdeithas i fabwysiadu’r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd (CEFR).

2.3 Mae trefniadau recriwtio effeithiol yn galluogi TWW i gael gweithlu sy’n meddu ar y sgiliau Cymraeg angenrheidiol er mwyn cynorthwyo darpariaeth gwasanaethau dwyieithog. Mae fframwaith CEFR yn darparu lefel ddealltwriaeth sylfaenol o’r sgiliau sy’n bodoli eisoes, a bydd yn cynorthwyo i nodi meysydd gwasanaeth y mae gofyn cael mwy o gapasiti ynddynt er mwyn darparu gwasanaethau wrth symud ymlaen. Mae cael asesiad ystyrlon o anghenion iaith yn hanfodol ar gyfer pob swydd a swydd wag, ynghyd â hysbysebu priodol ynghylch y sgiliau angenrheidiol sy’n ofynnol. Oherwydd y gallai defnyddio’r term

'hanfodol' mewn perthynas â sgiliau Cymraeg atal neu gyfyngu ar ddewis yr ymgeiswyr posibl, mae mabwysiadu fframwaith CEFR yn cynnig eglurder am y categorïau penodol ac unigryw sy'n ofynnol megis cynnal sgwrs yn Gymraeg er mwyn cyfyngu ar yr effaith bosibl.

2.4 Yn ystod 2025, caiff y cwestiwn ynghylch sut i gryfhau'r arferion presennol ei ystyried a chaiff hyn ei gynorthwyo trwy gynnwys canllawiau perthnasol neu hyfforddiant i reolwyr pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, bydd gwaith yn ymestyn i ystyried yr hyfforddiant ymsefydlu a gwella'r hyn a gynigir fel rhagflas trwy gyfrwng y broses honno.

2.5 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, Cymraeg 2050, yn nodi'r weledigaeth er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn cynnwys y targed o ddyblu'r defnydd dyddiol a wneir o'r iaith Gymraeg yn ystod yr un cyfnod, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Er mwyn cynorthwyo ymrwymiad y Gymdeithas i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a chynorthwyo wrth ddatblygu sgiliau ieithyddol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, cynhaliwyd adolygiad o ddwy swydd a oedd yn bodoli eisoes a chrëwyd rolau Swyddog Cyfieithu a'r Iaith Gymraeg, sy'n rhoi'r ffocws pennaf ar ddarparu gwasanaeth cyfieithu, hyfforddiant, hyrwyddo, cydymffurfiaeth a monitro yn fewnol ac yn allanol.

## 3.0 Hyfforddiant Cymraeg

3.1 Mae TWW wedi parhau i gynorthwyo dysgu a chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg trwy gyfrwng ap ar-lein 'Say Something in Welsh' (SSiW) a rhaglen 'Iaith Gwaith'. Ariannir dysgu SSiW gan TWW.

3.2 Yn ystod y cyfnod adrodd, cofrestrwyd pum aelod o staff ar gyrsiau 'Iaith Gwaith' ac roedd tri dysgwr newydd wedi cychwyn ar ddewis deuddeg mis 'Say Something in Welsh' (SSiW). Mae adborth gan y dysgwyr presennol wedi nodi bod cyflwyno ap symudol newydd SSiW yn cynnig mwy o hyblygrwydd a gwneir mwy o ddefnydd ohono yn ystod amseroedd cymudo.

3.3 Mae nifer o aelodau'r Bwrdd yn dysgu Cymraeg, gan ddefnyddio ap SSiW a mynychu dosbarthiadau.

3.4 Er mwyn annog a hyrwyddo cyfleoedd dysgu, lluniwyd cwrs a fyddai'n rhoi rhagflas o'r Gymraeg, gyda'r cynnwys yn seiliedig ar ddeunydd dysgu 'Iaith Gwaith'. Cyflwynwyd tair sesiwn hyfforddiant mewnol 30 munud a oedd yn cynnig rhagflas, ac fe'u cychwynnwyd ym mis Chwefror 2024. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyrwyddo, sydd wedi arwain at 74 aelod o staff yn ymrwymo i'r sesiynau hyfforddiant. Nod y sesiynau yw annog aelodau o staff i gychwyn neu i ailgychwyn ar eu taith dysgu Cymraeg.

3.5 Mae'r llwyddiant a welwyd, yn rhannol, o ganlyniad i'r gallu i ymgymryd â'r hyfforddiant yn ystod amser gwaith a bydd gwaith a wneir i weithredu'r ddarpariaeth ddysgu yn y dyfodol yn seiliedig ar adborth a geir a gofynion safonau'r Gymraeg yn y dyfodol, a gynhelir yn ystod 2025.

3.6 Mae'r gwaith wedi cychwyn hefyd ar y broses o greu cynnwys ar gyfer yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a fydd yn ofyniad o fewn safonau'r Gymraeg.

3.7 Penderfynodd 19 dysgwr roi’r gorau i ddysgu yn ystod cyfnodau adrodd blaenorol a chysylltwyd â nhw i annog a thrafod y cyfleoedd iddynt ailgydio yn eu dysgu. O ganlyniad, gwelwyd saith aelod o staff yn cwblhau’r sesiynau rhagflas, mae dau yn parhau i ddysgu trwy gyfrwng Duolingo a chaiff gwaith ei wneud i ymateb i’r rhai sydd wedi mynegi diddordeb mewn dysgu yn y dyfodol yn ystod 2025.

3.8 Law yn llaw â’r cyrsiau dewisol hyn, ystyrir y cam o gyflwyno hyfforddiant cwrteisi Cymraeg fel hyfforddiant gorfodol yn ystod 2025. Cynhelir y rhaglen beilot i gyflwyno Cymraeg ar lefel cwrteisi i’r unigolion newydd a gaiff eu recriwtio yn y lle cyntaf. Ar ôl cynnal gwerthusiad trylwyr o’r peilot, ystyrir cyflwyno hyfforddiant cwrteisi Cymraeg i’r holl gyflogeion presennol.

3.9 Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, mae teilsen ‘Dysgu Cymraeg’ yn ymddangos mewn safle amlwg o hyd ar dudalen flaen SharePoint ac fe’i hadolygwyd er mwyn diweddaru gwybodaeth a chasglu adnoddau newydd yn ystod y cyfnod adrodd. Mae’r dudalen yn darparu manylion yr holl gyfleoedd dysgu a chymorth. Diweddarwyd y geirfaoedd i gynnwys cyfarchion, ymadroddion a thermau penodol o faes tai er mwyn cynorthwyo pobl i ddysgu, a chaiff geirfaoedd Menter Iaith eu cadw hefyd a’u darparu. Yn ogystal, mae’n darparu manylion yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas, sy’n cynnig cymorth gyda gwaith mentora anffurfiol, adnoddau defnyddiol, dyddiadau a manylion digwyddiadau diwylliannol Cymreig, brawddeg yr wythnos (ar ôl cael adborth gan ddysgwyr), templed dwyieithog ar gyfer negeseuon e-bost allan o’r swyddfa, ynghyd â llofnodion e-bost dwyieithog a gweithgareddau a chyfleoedd i gynorthwyo a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg.

3.10 Adolygwyd darpariaethau mentora yn ystod 2024/25 a chychwynnwyd rhwydwaith newydd i’r rhai sy’n dysgu Cymraeg ym mis Mehefin 2024, yn dilyn gweithgarwch hyrwyddo mewnol ar SharePoint Daeth y sesiynau i ben ym mis Rhagfyr 2024 oherwydd diffyg cyfranogiad. Ystyrir sut i ailgydio yn y rhain a’r ffordd orau o gynorthwyo dysgwyr yn ystod 2025 ar ôl cael adborth o’r sesiynau hyfforddiant peilot.

3.11 Roedd dau aelod o staff wedi cwblhau cwrs Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg Hyfforddi’r Hyfforddwr, sy’n cynorthwyo hyfforddwyr i feithrin sgiliau, dealltwriaeth a gwybodaeth er mwyn gallu cynllunio, creu a chyflwyno hyfforddiant Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg o ansawdd uchel yn y gweithle. Y nod yn ystod 2025 yw datblygu cynnwys ar gyfer cyrsiau a dechrau ar y gwaith o ddarparu’r hyfforddiant.

## 4.0 Hyrwyddo'r Gymraeg

4.1 Yn ystod y cyfnod y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef, bu sawl achos lle y mae’r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo’n fewnol, ynghyd â chyhoeddiadau i hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol niferus, megis Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, yr Eisteddfod Genedlaethol, Eisteddfod yr Urdd, Dydd Miwsig Cymru, “Defnyddia dy Gymraeg” a Diwrnod “Shwmae Su'mae”, a ddathlwyd gyda ‘Chacennau Cri’ ac a hyrwyddwyd ar gyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal, roedd TWW wedi cymryd rhan yn Niwrnod cenedlaethol Hawliau’r Gymraeg i ddathlu a hyrwyddo’r gwasanaeth Cymraeg a

gynigir gan TWW trwy rannu fideo i amlygu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn cael cyswllt gyda TWW. Roedd cyhoeddiadau mewnol misol yn yr adran 'a wyddoch chi' ar SharePoint wedi parhau, a oedd yn cynnwys gair/brawddeg yr wythnos, newyddion Cymraeg a ffeithiau diwylliannol dwyieithog, hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg, megis digwyddiadau Menter Iaith, a gwybodaeth am hanes Cymru a thraddodiadau Cymreig. Yn ystod 2024/2025, gwelwyd y postiadau dros 1,500 gwaith at ei gilydd.

4.2 Hyrwyddwyd Strategaeth Cymraeg 2050 gyda'r nod o gynorthwyo a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ac er mwyn creu amodau, seilwaith a chyd-destun ffafriol.

4.3 Hyrwyddwyd digwyddiadau a chyfleoedd amrywiol yn ystod 2024 er mwyn cynorthwyo pobl i ddysgu Cymraeg:

- Clwb darllen 'Iaith Gwaith'
- Cyfres 'Iaith ar Daith' ar S4C
- Y dathliad o ddysgu Cymraeg a gynhelir dros wythnos gyfan, sef 'Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg'
- Posteri ymadroddion Menter Iaith, a
- Chodi ymwybyddiaeth o'r platfform darllen digidol Cymraeg newydd

4.4 Hyrwyddwyd yr iaith Gymraeg yn y ffyrdd canlynol hefyd:

- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg trwy ddefnyddio brand Iaith Gwaith i nodi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Caiff y troednodyn e-bost sy'n dangos y croesawir gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ei gynnwys ar holl negeseuon e-bost mewnol ac allanol siaradwyr Cymraeg rhugl. Gall y rhai sy'n dysgu Cymraeg nodi eu bod yn ddysgwyr hefyd ar negeseuon e-bost mewnol, sy'n cynorthwyo ac sy'n annog y defnydd o'r iaith Gymraeg wrth weithio'n rhith. Yn ogystal, cynigir bathodynnau a laniardiau Iaith Gwaith i'r holl staff y byddent yn fodlon i eraill gychwyn sgyrsiau gyda nhw yn Gymraeg.

- Mae TWW yn parhau i gefnogi digwyddiadau a datblygu gwaith a wneir mewn partneriaeth gyda Menter Iaith a'r sectorau addysg megis Mudiad Meithrin ac Ysgolion Uwchradd.

- Gweithiodd TWW mewn partneriaeth i ddarparu a chynorthwyo nifer o ddigwyddiadau cymunedol dwyieithog, a oedd yn cynnwys:

  - 8 sesiwn ddigidol ddwyieithog yn Llys Owen, Aberteifi ac yn Llain Las, Abergwaun, mewn partneriaeth ag Age Cymru
  - Digwyddiadau Haf llawn Hwyl ddwyieithog wythnosol yn rhad ac am ddim yn ystod y gwyliau ysgol yn Aberteifi
  - Prosiectau garddio dwyieithog amrywiol mewn pedwar cynllun yn Sanclêr, Llanbedr Pont Steffan, Aberteifi ac Abergwaun
  - Bu'r staff yn gwirfoddoli gyda Phrosiect Platfform 1 (Men Shed Y Drenewydd) gan ddefnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl'
  - Helfa Drysor y Pasg dwyieithog yng Ngolwg y Castell, Aberteifi
  - Diwrnodau Hwyl dwyieithog mewn dau gynllun yng Nghaerfyrddin a Sanclêr

  - Cynorthwyo ysgolion dwyieithog gyda digwyddiadau gyrfaoedd h.y., cynorthwyo gyda chyfweliadau ffug (wrth i staff ddefnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl' a chymorth contractwyr) yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr a Bro Edern
  - Gweithio gyda chontractwyr a chyflenwyr TWW i fynychu Digwyddiad Gyrfaoedd yn Ysgol Morgan Llwyd
  - Boreau coffi Cymraeg yng nghynllun Gofal Ychwanegol Maes y Môr er mwyn dathlu diwrnod Shwmae a chreu torchau (wrth i'r staff ddefnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl')

- Roedd TWW wedi noddi sawl grŵp yn ystod y cyfnod adrodd, er mwyn eu cynorthwyo i ddarparu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Gwariodd TWW bron i £29,000 ar y gweithgareddau canlynol:

  - Gŵyl Canol Dre Menter Iaith yng Nghaerfyrddin
  - Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru ym Mhowys
  - Clwb Hoci Castellnewydd Emlyn
  - Hysbysfwrdd Cyngor Cymuned Eglwyswrw
  - Digwyddiad i groesawu'n ôl athletwyr Paralympaidd Chwaraeon Anabledd Cymru
  - Prosiect Platfform 1 (Men Shed Y Drenewydd) i drawsnewid hen orsaf Rheilffordd yn hwb cymunedol a fydd yn cynnig sesiynau Cymraeg
  - Rubicon Dance, elusen ddawns cyfrwng Cymraeg

4.5 Yn ystod y cyfnod adrodd, hyrwyddwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg ar fewnrwyd y staff ac mae'r broses Ymsefydlu i Reolwyr yn parhau i gynnwys dogfen wybodaeth am y Gymraeg ac mae'n darparu gwybodaeth a dolenni i'r Cynllun Iaith Gymraeg, Protocolau'r Gymraeg a Gweithdrefn Gyfieithu y Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn parhau i gael ei hyrwyddo yn y cyflwyniadau Ymsefydlu Corfforaethol.

4.6 Cynhaliwyd archwiliad o'r arwyddion yn y tair swyddfa ac ym mhob cynllun gofal ychwanegol, ac mae camau i roi sylw i anghysondebau yn cael eu cymryd o hyd fel rhan o adolygiad ehangach parhaus o arwyddion.

## 5.0 Cyfathrebu yn Gymraeg

5.1 Mae nifer fechan o breswylwyr (56 at ei gilydd) wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg ac maent wedi nodi eu dewisiadau mewn perthynas â chyswllt ysgrifenedig, ar lafar neu'r ddau. Yn ogystal, mae 619 o breswylwyr yn cael copïau dwyieithog o In Touch, a gwelwyd y nifer hon yn gostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd, o 1,240 yn 2023/24, pan gynhaliwyd dadansoddiad manwl o ddewisiadau cyfathrebu yn ystod 2024, gan arwain at gynnydd yn nifer y copïau Saesneg yn unig.

5.2 Bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2025 i gasglu gwybodaeth am ddewisiadau iaith fel rhan o weithgarwch proffilio preswylwyr, sy'n rhan o waith y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Cedwir data am ddewis iaith 59% o'r preswylwyr presennol. Mae gwybodaeth am ddewis iaith ar gael i'r holl staff ei gweld, a bydd gohebiaeth gan TWW yn Gymraeg neu yn Saesneg, fel y nodir gan y preswylydd lle y casglwyd manylion am eu

dewis. Anfonir yr holl ohebiaeth yn ddwyieithog a bydd hyn yn parhau nes caiff gwybodaeth am ddewis llawn y preswylwyr hyn ei sicrhau.

5.3 Mae TWW yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Pan fydd pobl yn ffonio prif rif ffôn TWW, mae'r neges gychwynnol yn cynnig dewis iaith i bobl. Caiff yr holl alwadau a wneir yn ystod oriau swyddfa sy'n dewis y Gymraeg eu dargyfeirio i siaradwyr y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Gwelwyd cyfanswm y galwadau a oedd wedi gofyn am y dewis Cymraeg yn gostwng ychydig o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, gydag 887 o alwadau yn ystod 2024/25 o'u cymharu â 968 yn ystod 2023/24. Mae 0.92% o'r holl alwadau a wneir yn ystod oriau swyddfa yn rhai Cymraeg. Gan nad yw'r gwasanaeth Cymraeg ar gyfer galwadau brys y tu allan i oriau swyddfa ar gael ar hyn o bryd, roedd ymarfer cwsmer cudd wedi cadarnhau bod y rhai sy'n galw y tu allan i oriau swyddfa yn cael eu hysbysu o oriau gwaith y llinell Gymraeg.

5.4 Mae WWH yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol, yn ogystal â defnyddio staff dynodedig sy'n ymateb i ac sy'n blaenoriaethu unrhyw waith yn unol ag anghenion y Gymdeithas. Gwneir yr holl waith prawf ddarllen yn fewnol gan wahanol gyfieithydd, sy'n sicrhau bod pob darn o waith yn gyson, ac y defnyddir terminoleg safonol. Adolygwyd y weithdrefn gyfieithu, a gyflwynwyd ar ôl cyhoeddi dogfen gyngor CyG, 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb', yn ystod y cyfnod adrodd ac mae ar gael ar fewnrwyd y staff ac mae'n cael ei chynnwys yn yr holl ymatebion awtomatig i geisiadau am waith cyfieithu.

5.5 Yn ystod 2024, cwblhawyd y gwaith ar gynyddu cof y meddalwedd cyfieithu, CyfieithuCymru. Mae cynyddu'r cof yn cynorthwyo wrth hwyluso'r broses gyfieithu, gan wella cysondeb a bodloni gofynion y Gymdeithas yn well.

5.6 Cynhaliwyd ymarfer cwsmer cudd er mwyn sicrhau bod y wefan yn parhau i fod yn hollol ddwyieithog yn ystod 2024. Ystyriwyd anghysondebau posibl yn y tudalennau Cymraeg a Saesneg, gan ganolbwyntio ar ymarferoldeb tudalennau Cymraeg yn arbennig, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol. Yn ystod y cyfnod adrodd, ystyriwyd y ffordd orau o ddelio â'r anghysondebau, a sicrhau cywirdeb a chysondeb wrth symud ymlaen. O ganlyniad, rhoddwyd hyfforddiant i'r tîm Cymraeg ynghylch diweddaru'r wefan, ac mae hyn wedi arwain at symleiddio'r broses, gan olygu ei bod yn llai tebygol y caiff camgymeriadau eu gwneud, ac mae'n cynorthwyo gwaith monitro parhaus effeithiol a gwaith i gywiro unrhyw anghysondebau neu anomaleddau a nodir. Mewn adolygiad o'r platfform recriwtio ar y wefan, nodwyd nad yw'r system bresennol yn cynorthwyo elfen ddwyieithog hysbysebu mewn ffordd effeithiol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi datrysiad amgen er mwyn cynorthwyo'r gofyniad hwn.

5.7 Yn ystod 2024/2025, gwelwyd tudalennau'r fersiwn Saesneg ychydig dros 311,000 gwaith a gwelwyd tudalennau'r fersiwn Gymraeg bron i 5,000 gwaith, o'i gymharu ag ychydig dros 333,000 (Saesneg) gwaith a 3,000 (Cymraeg) gwaith yn ystod 2023/2024. Roedd y dudalen yr edrychwyd arni amlaf yn yr iaith Gymraeg yn ymwneud â'r Polisi Preifatrwydd, a ddilynwyd gan y dudalen Hafan a thudalen Chwilio am gartref. Mae'r ddogfen CyG a gymeradwywyd ac Adroddiad Diweddaru Blynyddol y Gymraeg ar gael ar y wefan.

5.8 Yn ogystal, mae'r Gymdeithas yn defnyddio nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook, Instagram a LinkedIn i rannu negeseuon corfforaethol, newyddion a

swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Rhoddodd yr ymarfer cwsmer cudd mewn perthynas â'r platfformau hyn sicrwydd bod ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i'r ddwy iaith yn ystod y cyfnod adrodd. Yn ystod y cyfnod adrodd, rhannodd y Gymdeithas 11 o fideos dwyieithog a gynhyrchwyd yn fewnol ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd.

5.9 Mae'r protocolau mewnol ac allanol am yr iaith Gymraeg wedi bod yn eu lle er mis Medi 2017 ac fe'u hadolygwyd yn 2024. Mae'r protocolau, sydd ar gael ar fewnrwyd y staff, yn cynnig arweiniad am y ffordd y mae TWW yn darparu gwasanaethau Cymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r protocolau yn ychwanegu at y CyG a gymeradwywyd, a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol.

5.10 Mae gwaith i ystyried y cam o gyflwyno hyfforddiant gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg wedi cychwyn, gan fod hon yn safon gyson ar draws holl atodlenni safonau'r Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant yn cynnig dealltwriaeth well o agweddau hanesyddol a diwylliannol, materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, megis y fframwaith polisi a deddfwriaethol, a'r rhesymeg dros ddwyieithrwydd. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar werthfawrogi dewis iaith fel rhan annatod o gyfathrebu effeithiol ac optimeiddio'r gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd nod yr hyfforddiant yn cynorthwyo hefyd wrth ystyried ystyriaethau gweithgarwch cynllunio gwasanaeth a darparu adnoddau, wrth gynyddu'r sylw dyladwy a roddir i'r canlyniadau o ran y defnydd o'r iaith Gymraeg wrth ddatblygu neu ddiweddaru polisïau a gweithdrefnau.

5.11 Yn unol â'r canllawiau a'r rhestr gyfeirio hunan-reoleiddio a gyhoeddwyd gan CyG, mae nifer y swyddi newydd a gwag yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael eu cynnwys yn niweddariad blynyddol 2024/2025. Rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, hysbysebwyd tua 144 o swyddi newydd neu swyddi gwag, a hysbysebwyd pob un o'r rhain gyda theitlau swydd dwyieithog. Roedd pob un yn y categori a oedd yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol. Mae adran i asesu gofynion Cymraeg ar gyfer swyddi presennol a swyddi newydd wedi cael ei chynnwys yn y Ffurflen Cais Recriwtio fewnol, sy'n mynnu bod Rheolwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Caiff geirfa wedi'i chyfieithu, sy'n cynnwys yr holl rolau presennol, yr ymadroddion a'r termau ar gyfer hysbysebion recriwtio, ei diweddaru'n rheolaidd ac mae ar gael ar y dudalen Gymraeg fewnol. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith yn parhau i fabwysiadu dull gweithredu cyson mewn perthynas â hysbysebu swyddi ar wefan y Gymdeithas.

5.12 Mae'r gwaith i baratoi gwybodaeth, mewn perthynas â'r holl ddogfennau a'r cyhoeddiadau sy'n cael eu paratoi'n fewnol, yn parhau. Nod yr ymarfer yw sicrhau bod fersiynau dwyieithog ar gael o'r holl ddogfennau ac na chaiff yr iaith Gymraeg ei thrin mewn ffordd lai ffafriol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cwblhawyd y gwaith o symleiddio dogfennaeth Gofal Ychwanegol a chyhoeddiadau ar draws yr holl gynlluniau. Mae templedi dwyieithog ar gael o hysbysiadau a chyfathrebu safonol a bydd holl daflenni gwybodaeth y cynlluniau gofal ychwanegol ar gael yn ddwyieithog hefyd.

**6.0 Cwynion**

Ni chafwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod.

**7.0 Cyfathrebu a chynllun gweithredu Comisiynydd y Gymraeg**

Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion na diwygiadau ar ôl cyflwyno adroddiad monitro blynyddol a chynllun gweithredu 2023/2024 i CyG. Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, cyflwynir yr adroddiad monitro a'r cynllun a ddiweddarwyd ac sy'n ymddangos yn Atodiad 1 i CyG yn y ffordd arferol. Fel yr adroddwyd uchod, mae'r CIG a adolygwyd ac a gymeradwywyd yn ddiweddar ar gael ar wefan TWW a chaiff ei hyrwyddo'n fewnol yn fuan.

**8.0 Diweddariad am weithredu Safonau'r Gymraeg**

8.1 Daeth yr ymgynghoriad am y cynigion i wneud chwe chorff ac Awdurdod Iechyd Arbennig yn gategori unigolion dan Safonau'r Gymraeg (safonau) i ben yn 2024 a darparwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Ionawr 2025. Mae'r broses osod o 14 mis bellach wedi cychwyn, ac mae'r amserlen yn nodi dyddiad cydymffurfio ym mis Mai 2026.

8.2 Mae LlC yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflawni set o safonau ar gyfer y sector Tai erbyn diwedd y tymor hwn, ac ar hyn o bryd, mae'n cydweithio gyda CyG i greu set o safonau drafft ar gyfer y sector. Er nad oes amserlenni penodol wedi cael eu cyfleu i'r sector, disgwylir y bydd y cyfnod ymgynghori o dri mis ar gyfer y cynigion yn cychwyn yn nes ymlaen yn ystod yr haf. Ar sail y tranche presennol, nodir amserlen ddangosol isod

| | |
|---|---|
| **Mehefin 2025 – Hydref 2025** | Cyfnod ymgynghori Llywodraeth Cymru |
| **Ionawr 2026** | Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Crynodeb o'r Ymatebion |
| **Mawrth/Ebrill 2026** | Pob cyfarfod Rhagarweiniol unigol gyda CyG a holiadur safonau'r Gymraeg |
| **Mehefin 2026** | CyG yn cael ymatebion i'r holiadur |
| **Gorffennaf 2026** | Anfon hysbysiad Cydymffurfio drafft at bob Cymdeithas Dai unigol. Cyfnod ymgynghori 12 wythnos yn cychwyn. |
| **Tachwedd 2026** | Hysbysiad Cydymffurfio Terfynol |
| **Mai 2027** | Diwrnod cydymffurfio cynharaf sy'n bosibl |

8.3 Gweithredir rhywfaint o gymesuredd a rhesymoldeb yn ystod proses ymgynghori CyG, felly ni fydd gan ddau sefydliad yr un set o ofynion. Bydd y mesur arfaethedig ar gyfer rheoleiddio yn y dyfodol yn mabwysiadu dull gweithredu cyd-reoleiddio. Bydd y proffil risg ar gyfer pob cymdeithas unigol yn pennu lefel y gofynion rheoliadol.

8.4 Mae modd meithrin dealltwriaeth o ofynion posibl, a bydd gwaith parhaus yn parhau i nodi'n glir y meysydd lle y gwelir cydymffurfiaeth a chydymffurfiaeth rannol ar hyn o bryd, a nodi meysydd penodol y bydd gofyn canolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Caiff diweddariad a chynllun gweithredu eu paratoi ym mis Medi 2025 i gynnig dirnadaeth a chyfrannu at bolisi yn y dyfodol.

8.5 Bydd TWW yn parhau i fynychu unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir gan Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn meithrin cysylltiadau a sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol trwy gydol y cyfnod gosod a hefyd, ein bod yn dysgu gan sefydliadau sy'n mynd trwy'r broses ar hyn o bryd neu sydd wedi mynd trwy'r broses. Yn ogystal, disgwylir y bydd CHC yn ffurfio gweithgor i gynorthwyo'r sector yn ystod y cyfnod pontio.

## 9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR bod y Bwrdd:-

i. Yn nodi'r adroddiad hwn; ac
ii. Yn cymeradwyo'r cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

**Alex Stephenson**
**Cyfarwyddwr Gweithredol (Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau)**

2 Ebrill 2025